OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2973 (Cy.256)

ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Corff Cyfrifwyr Ewropeaidd Cymeradwy) 2007

Gwnaed - - - -	*15 Hydref 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*16 Hydref 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Rhagfyr 2007*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan baragraff 21(6) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Corff Cyfrifwyr Ewropeaidd Cymeradwy) 2007 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2007.

Cymeradwyo Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheolaeth

2.—(1) Mae'r cyrff a grybwyllir ym mharagraff (2) yn gyrff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy at ddibenion paragraff 21(6) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(2) Dyma'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—

(a) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth; a

(b) Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheolaeth.

Andrew Davies
Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi
Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru.

15 Hydref 2007

(**1**) 2006 p.32.